



Polisi Allbynnau Ystadegol

CHWEFROR 2020



Rheoli Fersiynau

Cyhoeddwyd y Polisi Allbynnau Ystadegol hwn ym mis Rhagfyr 2019.

Croesewir adborth ar y polisi hwn unrhyw adeg. Anfonwch unrhyw sylwadau i'r cyfeiriad policy@cymwysteraucymru.org.

Egwyddorion cyffredinol y Polisi Allbynnau Ystadegol

Mae'r ddogfen hon yn nodi sut y bydd Cymwysterau Cymru ("ni") yn cyhoeddi allbynnau ystadegol yn ymwneud â data a gasglwn ar gymwysterau rheoleiddiedig. Rydym yn casglu data gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig at ddibenion monitro a chydymffurfio ac ar gyfer adolygiadau thematig a sector, fel yr amlinellir yn ein dogfen 'Datganiad Polisi ar Adolygiadau o Gymwysterau ac o'r System Gymwysterau' ac fel y nodir yn ein [Hamodau Cydnabod Safonol](#). Ym mis Tachwedd 2017 cawsom ein henwi'n gynhyrchwyr ystadegau swyddogol¹. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol^{2,3} a dulliau rheoleiddio⁴ ystadegau swyddogol.

Rydym yn ategu'r system gymwysterau trwy ddarparu amrywiaeth o allbynnau ystadegol a gwasanaethau. Rydym yn gwneud hyn trwy gyfrwng y canlynol:

- Meithrin a chynnal hyder yn ein staff a'n prosesau ystadegol sy'n cynhyrchu ystadegau a data. Rydym yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:
 - Meithrin capasiti, gallu a dulliau ymgysylltu;
 - Cynhyrchu ystadegau sy'n gredadwy ac felly'n awdurdodol.
- Sicrhau bod ein hystadegau'n gweddu i'r defnydd y bwriedir ei wneud ohonynt, yn seiliedig ar ddata a dulliau priodol, ac nad ydynt yn gamarweiniol yn eu hanfod. Rydym yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:
 - Cynhyrchu ystadegau sy'n berthnasol i'r defnydd amrywiol a wneir ohonynt;
 - Sicrhau bod dadansoddiadau amserol ar gael a'u bod yn seiliedig ar fethodoleg gadarn;
 - Sicrhau'r cydbwysedd iawn rhwng anghenion amrywiol (a chroes, o dro i dro) y defnyddwyr;
 - Rhagweld ac ymateb i newidiadau o ran anghenion defnyddwyr.
- Sicrhau bod ein hystadegau a'n data'n ddefnyddiol, yn hawdd cael gafael arnynt, yn parhau i fod yn berthnasol, ac yn ategu dealltwriaeth o faterion pwysig. Rydym yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:
 - Cyhoeddi data sy'n hygyrch, yn gyson ac wedi'u dogfennu'n llwyr;

¹Cynulliad Cenedlaethol Cymru, (Tachwedd 2017) *Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017* [Ar-lein]. Ar gael yma <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1142/introduction/made> (Defnyddiwyd ar 11 Mehefin 2019).

²Cynulliad Cenedlaethol Cymru, (Hydref 2009) *Gorchymyn Gweld Ystadegau Swyddogol cyn eu Rhyddhau (Cymru) 2009* [Ar-lein]. Ar gael yma <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2009/2818/introduction/made> (Defnyddiwyd 11 Mehefin 2019).

³Y Senedd, (Gorffennaf 2007) *Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007* [Ar-lein]. Ar gael yma <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2007/18/introduction> (Defnyddiwyd 11 Mehefin 2019).

⁴Awdurdod Ystadegau'r DU, (Chwefror 2008) *Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau* [Ar-lein]. Ar gael yma <https://www.statisticsauthority.gov.uk/code-of-practice/> (Defnyddiwyd 11 Mehefin 2019).

- Cynhyrchu ystadegau a gaiff eu cyflwyno a'u dosbarthu mewn ffyrdd sy'n gweddu i'r gymuned ehangach.

Mae "Allbynnau Ystadegol" yn cyfeirio at bob ffurf ar gyhoeddiadau sy'n cynnwys data yr ydym yn eu casglu mewn perthynas â chymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru. Gall yr allbynnau hyn hefyd gynnwys rhywfaint o ddata nad ydym ni'n eu casglu, ond a gaiff eu casglu gan gyrff eraill. Cyflwynir ein hallbynnau mewn nifer o ffurfiau, yn cynnwys:

- Datganiadau ystadegol rheolaidd sy'n cynnwys data a gaiff eu casglu'n rheolaidd;
- Datganiadau ystadegol arbrofol neu ad hoc ac ymatebion i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth;
- Adroddiadau thematig;
- Dogfennau briffio, bwletinau;
- Ffeithluniau a delweddau.

Cynnwys

Polisi Allbynnau Ystadegol	1
Sut yr ydym yn ymgysylltu â defnyddwyr ein hystadegau	4
Prisio a ffurf allbynnau	4
Rhag-gyhoeddi'r allbynnau	5
Amseru'r cyhoeddiadau	5
Marciau diogelwch	5
Uniondeb	6
Y Gymraeg	6
Rheoli Datgelu Ystadegol	7

Sut yr ydym yn ymgysylltu â defnyddwyr ein hystadegau

1. Mae ein hystadegau o ddiddordeb arbennig i'r canlynol:
 - Cymwysterau Cymru
 - Cyrff eraill sy'n rheoleiddio cymwysterau
 - Cyrff dyfarnu cydnabyddedig
 - Llywodraeth Cymru
 - Awdurdodau Lleol
 - Consortia rhanbarthol
 - Undebau athrawon
 - Ysgolion a cholegau
 - Darparwyr dysgu o fath arall
 - Ymchwilwyr
 - Y cyfryngau
 - Dysgwyr
 - Rhieni a gwarcheidwaid
 - Cyrff eraill sydd â diddordeb mewn addysg yng Nghymru
2. Rydym yn croesawu adborth gan ddefnyddwyr ac, o ganlyniad, rydym yn disgwyl cael gwell dealltwriaeth dros amser o bwy yw ein defnyddwyr. Rydym yn annog adborth ar bob un o'n hallbynnau ystadegol. Weithiau, byddwn yn cynnal ymarferion ymgysylltu gyda defnyddwyr er mwyn deall yn well sut y caiff ein hystadegau eu defnyddio a sut y gallwn ddiwallu anghenion ein defnyddwyr yn well.
3. Mae ein presenoldeb ar-lein yn ffordd o hysbysu defnyddwyr ynghylch ein hallbynnau a datblygiadau newydd. Rydym yn bwriadu defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn ceisio barn ac ysgogi trafodaeth ar unrhyw newidiadau arfaethedig.
4. Rydym yn cyfleu i ddefnyddwyr unrhyw newidiadau disgwylidig i'n dulliau casglu data a'n hallbynnau trwy roi hysbysiadau ar ein gwefan.
5. Rydym yn sicrhau bod gan ein staff yr wybodaeth ddiweddaraf am ein hallbynnau trwy gynnal sesiynau rhannu gwybodaeth, a thrwy gyfrwng ein mewnwyd.

Prisio a ffurf allbynnau

6. Mae ein holl allbynnau ystadegol ar gael yn hwylus ar ein gwefan.

Gweld ystadegau cyn eu rhyddhau

7. Mae Gorchymyn Gweld Ystadegau Swyddogol cyn eu Rhyddhau (Cymru) 2009 yn nodi y gall swyddogion a Gweinidogion Cymru gael hyd at bum diwrnod gwaith (hyd at 24 awr yn achos ystadegau sy'n sensitif i'r farchnad) i weld allbynnau'n gynnar, ynghyd â'u swyddogion. Yr unig reswm dros hyn yw er mwyn sicrhau y gall Gweinidogion a swyddogion ymateb yn llawn pan fydd cwestiynau'n codi adeg cyhoeddi'r ystadegau. Rydym yn cadw cofnod o Weinidogion a'u swyddogion sydd wedi cael gweld pob allbwn, er mwyn i'r cyhoedd allu craffu arno.
8. Gellir caniatáu hefyd i swyddogion weld ystadegau'n gynnar (pan ellir cyfiawnhau hyn) yn ystod y gwaith o sicrhau ansawdd y data. Caiff llwybr archwilio manwl gywir ei gadw, a hysbysir y swyddogion hynny sy'n cael deunydd heb ei ryddhau ynghylch eu cyfrifoldebau o ran cyfrinachedd.

Rhag-gyhoeddi'r allbynnau

9. Ar gyfer datganiadau ystadegol rheolaidd, caiff dyddiadau cyhoeddi eu datgan ymlaen llaw ar ein gwefan ac ar wefan Llywodraeth Cymru. Caiff mis y cyhoeddi ei ddatgan ddeuddeg mis ymlaen llaw, a chaiff union ddyddiad y cyhoeddi ei ddatgan bedair wythnos ymlaen llaw.

Amseru'r cyhoeddiadau

10. Rydym yn anelu at gyhoeddi ein hallbynnau ystadegol ar ein gwefan am 9.30am ar ddiwrnodau gwaith arferol, yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Ymhellach, caiff y cyhoeddiad ei ddatgan ar ein gwefan a'n cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

Marciau diogelwch

11. Cyn iddynt gael eu cyhoeddi, caiff pob allbwn sy'n cynnwys ystadegau nad ydynt yn y parth cyhoeddus ei farcio'n 'SWYDDOGOL-SENSITIF: YSTADEGAU CYFYNGEDIG'. Ceir datganiad safonol ar gyfer pob achos o weld ystadegau cyn eu cyhoeddi, lle pwysleisir na ddylid eu hanfon ymlaen at unrhyw un arall ac na ddylid adrodd am eu cynnwys.

Uniondeb

12. Rydym yn cydymffurfio'n wirfoddol â Chod Ymarfer Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig ar gyfer Ystadegau. Yn unol ag egwyddor 'Didwylledd' y cod ymarfer, rydym yn sicrhau bod pob cam yn y gwaith o gynhyrchu, rheoli a dosbarthu ystadegau swyddogol sydd er budd y cyhoedd yn drech na buddiannau sefydliadol, gwleidyddol neu bersonol.
13. Er mwyn bodloni'r egwyddor hon, rydym yn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r arferion canlynol wrth gynhyrchu a chyhoeddi allbynnau ystadegol:
 - Rydym yn cyflwyno allbynnau ystadegol yn annibynnol ar unrhyw ddatganiad neu sylw am ffigurau a gynhwysir yn yr allbynnau hynny, ac yn sicrhau na chaiff unrhyw ddatganiad neu sylw ei roi i'r wasg na'i gyhoeddi cyn i'r ystadegau gael eu cyhoeddi;
 - Rydym yn sicrhau bod y rhai sy'n cynhyrchu allbynnau ystadegol yn cael eu diogelu rhag unrhyw fuddiannau sefydliadol neu wleidyddol a allai ddylanwadu ar y gwaith o gynhyrchu neu gyflwyno'r ystadegau;
 - Rydym yn sicrhau mai ein Pennaeth Ymchwil ac Ystadegau a'n Huwch-ystadegydd yn unig sy'n gyfrifol am benderfynu ar ddulliau, safonau a gweithdrefnau ystadegol;
 - Rydym yn dilyn yr holl oblygiadau statudol a'r holl ganllawiau rheoleiddio sy'n llywodraethu'r gwaith o gasglu data, cyfrinachedd, a chyhoeddi, ac rydym yn cydymffurfio'n wirfoddol â Chod Ymarfer Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig;
 - Rydym yn ymateb i gwynion sy'n ymwneud ag uniondeb, ansawdd neu safonau proffesiynol trwy hysbysu ein Pennaeth Proffesiwn Ystadegau yn Llywodraeth Cymru, a thrwy gynnal adolygiad mewnol yn y lle cyntaf;
 - Rydym yn cyflwyno hyfforddiant er mwyn sicrhau na fydd unigolion yn camfanteisio, er eu budd eu hunain, ar yr ymddiriedaeth a roddir ynddynt;
 - Rydym yn hyrwyddo diwylliant lle gall ein Pennaeth Ymchwil ac Ystadegau a'n Huwch-ystadegydd gyflwyno sylwadau'n gyhoeddus ar faterion ystadegol, yn cynnwys camddefnyddio ein hystadegau.

Y Gymraeg

14. Caiff ein datganiadau ystadegol rheolaidd eu cyhoeddi'n ddwyieithog, a bydd yr holl allbynnau ystadegol ar gael yn ddwyieithog yr un pryd a'i gilydd. Rydym yn ymateb i geisiadau yn yr iaith y cawsant eu cyflwyno i ni.

Rheoli Datgelu Ystadegol

15. Rydym yn talgrynnu i'r 5 agosaf er mwyn lleihau'r risg y bydd modd adnabod unigolion neu sefydliadau ar sail y data yn ein hallbynnau ystadegol, ac er mwyn gwneud ein hystadegau'n fwy hygyrch ac yn haws eu deall a'u defnyddio. Os yw ffigur yn llai na 5 ond yn fwy na 0, rydym yn defnyddio '*' i atal y ffigur, neu pan fo modd rydym yn defnyddio manylion crynswth priodol i osgoi rhifau bach.